



Grŵp  
**Llandrillo  
Menai**

---

# Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Blaengar

---

Grŵp Llandrillo Menai yn gweithio mewn  
partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'r  
Ganolfan Rheolaeth (GLLM@YGRh)



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY



**Y Ganolfan Rheolaeth**  
YSGOL BUSNES **BANGOR** BUSINESS SCHOOL  
**The Management Centre**

# Cynnwys

## 3 Partneriaeth Bwerus

## 4-13 Cyrsiau Hyfforddi Achrededig Proffesiynol

- Cymdeithas Cyfrifwyr Siartredig a Chymwysiedig (ACCA)
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM, CMI)
- Sefydliad Siartredig Pryniant a Chyflenwad (CIPS)
- Hyfforddi a Mentora (ILM)
- Sefydliad Siartredig Datblygiad Personel (CIPD)
- Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM)

## 14-17 Rhaglenni Prentisiaeth Uwch

- Diploma Cymwysedig mewn Adnoddau Dynol y CIPD (QCF)
- Fframwaith Rheolaeth Lefel 4
- Arloesedd Busnes a Thwf

## 18 Hyfforddiant Rhyngwladol

## 19 Hyfforddiant wedi'i Deilwra'n Arbennig ar gyfer Busnes

## 20 Adborth Cwsmeriaid

Grŵp Llandrillo Menai (GLLM)  
yn y Ganolfan Rheolaeth (GLLM@YGRh)  
Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Ffôn: 01248 365981  
E-bost: [training@themanagementcentre.co.uk](mailto:training@themanagementcentre.co.uk)  
[www.gllm.ac.uk/busnes](http://www.gllm.ac.uk/busnes)

 [twitter.com/LlandrilloMenai](https://twitter.com/LlandrilloMenai)

 [facebook.com/GrŵpLlandrilloMenai](https://facebook.com/GrŵpLlandrilloMenai)

# Partneriaeth Bwerus

Mae tîm Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Grŵp Llandrillo Menai, sydd wedi'u lleoli yn y Ganolfan Rheolaeth, yn ymroi i ddarparu'r gofal cwsmer/myfyriwr a'r gefnogaeth reoli broffesiynol orau bosib gan weithio mewn Partneriaeth â Phrifysgol Bangor.

Mae staff hynod o brofiadol a chymwysedig wedi dod at ei gilydd gyda'r nod gyffredin o godi safon rheolwyr ac arweinwyr. Mae gan y tîm brofiad helaeth a gwerthfawr o fewn y sector gyhoeddus, breifat a gwirfoddol.

Mae Darpariaeth y Cwrs yn **hyblyg** er mwyn iddi fod yn addas ar gyfer anghenion mudiadau ac unigolion, a gallent fod yn fewnol yn y gweithle neu o fewn cyfleusterau y Ganolfan Rheolaeth neu drwy gyfuniad o sianelau **dysgu cymysg** i ehangu eich addysg tra'n lleihau'r amser oddi wrth y ddesg.

Bydd gan ddarpariaeth yr holl raglenni ystod eang o ddulliau dysgu ac addysgu er enghraifft lefel uchel o **gymryd rhan**, gwaith grŵp, hunan-fyfyrio, dysgu gweithredol, a gweithgareddau adeiladu tîm yn yr awyr agored.

Bydd myfyrwyr yn derbyn **cefnogaeth** yn seiliedig ar y gwaith tu allan i ddarpariaeth y cwrs ar ffurf tiwtora un-i-un, cynadleddau fideo, e-byst a/neu gefnogaeth dros y ffôn.

Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn ganolfan gynhadledd a hyfforddiant ymroddedig a blaengar gyda llety o safon 4\* Croeso Cymru. Gyda golygfeydd o'r Fenai odidog, mae'r Ganolfan yn darparu profiad hyfforddi yn ei gyfanrwydd ble gall myfyrwyr ymgolli mewn awyrgylch dysgu delfrydol.



# Cymwysterau Cymdeithas Cyfrifwyr Siartredig a Chymwysedig (ACCA)

**Dilynwch yrfa wobrywol mewn Cyfrifeg, Rheolaeth a Chyllid. Datblygwch wybodaeth a sgiliau amhrisiadwy, trosglwyddedig sy'n eich galluogi i lwyddo yn eich tiwtora ACCA ac i ymestyn eich gyrfa fel person proffesiynol cymwys.**

Mae'r cyrsiau ACCA a gynigir gan GLLM@YGRh wedi'u hachredu gan Gymdeithas Cyfrifwyr Siartredig a Chymwysedig (ACCA), y corff rhyngwladol ar gyfer cyfrifwyr proffesiynol.

## Ar gyfer pwy mae'r cyrsiau ACCA?

Mae GLLM@YGRh yn cynnig cyrsiau ar gyfer cyflogwyr sy'n dymuno datblygu dawn cyllido o fewn eu busnes yn ogystal ag ymgeisiwyr sy'n gobeithio cael eu cyflogi'n llwyddiannus mewn sawl maes megis cyfrifeg, archwilio ariannol, trethu, y trysorlys, dehongli busnes, rheolaeth risg, rheolaeth ariannol ac ymgynghori ariannol.

## Y Cyrsiau ACCA a gynigir

- Papurau lefel sylfaenol (F1-F9)
- Papurau lefel proffesiynol (P1-P7)

Mae pob un o'r papurau lefel sylfaenol a phroffesiynol ar gael yn ddibynnol ar lefel y myfyriwr a'r galw yn ystod cylchred o 24-mis.

## Sgiliau a ddysgir a datblygir

Mae cymwysterau ACCA yn arfogi pobl ariannol broffesiynol gydag ystod amgen ac arloesol o sgiliau a gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer busnes.

## Lefel Sylfaenol

Modiwl Gwybodaeth er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- F1 Cyfrifydd mewn Busnes
- F2 Rheoli Cyfrifeg
- F3 Cyfrifeg Ariannol

## Lefel Sylfaenol

Modiwl Sgiliau er mwyn datblygu gwybodaeth a sgiliau mewn:

- F4 Cyfraith Corfforaethol a Busnes
- F5 Rheolaeth Perfformiad
- F6 Trethu
- F7 Adrodd Ariannol
- F8 Archwilio Ariannol a Sicrwydd
- F9 Rheolaeth Ariannol

## Lefel Broffesiynol

Modiwlau Hanfodol er mwyn gweithredu gwybodaeth briodol, sgiliau a rhoi beirniadaeth broffesiynol o fewn:

- P1 Llywodraethu, Risg a Moseg
- P2 Adrodd Corfforaethol
- P3 Asesu Dehongliadau Busnes

## Lefel Broffesiynol

Modiwl Dewisol er mwyn gweithredu gwybodaeth briodol, sgiliau a rhoi beirniadaeth broffesiynol o fewn:

- P4 Rheolaeth Ariannol Bellach
- P5 Rheolaeth Perfformiad Bellach
- P6 Trethu Pellach
- P7 Archwilio Ariannol a Sicrwydd Pellach

## Hyd y Cwrs

Mae'r ACCA yn GLLM@YGRh yn cael ei ddarparu trwy raglen ddysgu gymysg sy'n gymysgedd o sesiynau a fynychir a dysgu ar-lein.

- Sesiwn diwrnod llawn yn cynnwys anwythiad a thiwtora wyneb-yn-wyneb
- Deg sesiwn diwtora wyneb-yn-wyneb neu opsiwn i gymryd rhan ar-lein
- Sesiynau adolygu – dau ddiwrnod llawn yn y dosbarth
- Cefnogaeth tu allan i'r dosbarth trwy e-bost, ffôn neu wyneb-yn-wyneb

## Manteision i'r Mudiad

Mae sefydliadau'n elwa o gael pobl broffesiynol o fewn cyfrifeg sy'n deall gofynion eu busnes a'u cwsmeriaid ac yn gallu lleihau risgiau ariannol yn y dyfodol trwy werthuso effeithiol a rheoli arian.

## Manteision i'r Unigolyn

Mae unigolion yn elwa o raglen astudio hyblyg gan edrych ar sgiliau rheolaeth, technegol ac ariannol sy'n ofynnol gan gyfrifwyr mewn busnes. Mae'r cymhwyster ACCA yn un wedi'i gydnabod gan fudiadau blaengar ar draws y byd er enghraifft cwmnïau lleol a rhyngwladol, cyrff cyfrifeg, sefydliadau addysgol, llywodraethau ac endidau rhyngwladol megis y Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd.

Yn y Ganolfan Rheolaeth, mae graddfa basio'r ACCA yn uwch na'r cyfartaledd rhyngwladol. Mae ffioedd y cyrsiau yn gystadleuol ac mae'r dull dysgu cymysg yn sicrhau mynediad hyblyg i bawb.



## ACCA

Laura-Anna Roberts, Cynorthwy-ydd Ariannol, Galeri Caernarfon Cyf

“ Mae'r cymhwyster ACCA wedi cryfhau fy mhotensial er mwyn i mi gyrraedd gyrfa wobrywol dw i'n gyffrous amdani.”



# Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Blaengar

**Datblygwch arweinyddiaeth strategaethol a sgiliau rheoli eich mudiad er mwyn ysgogi ac ysbrydoli eraill yn effeithiol i wella perfformiad trefniadaethol ac i gyrraedd llwyddiant o fewn busnes.**

Mae'r Rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth a gynigir gan GLLM@YGRh wedi'u achredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI), Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM).

## Ar gyfer pwy mae'r cymwysterau arweinyddiaeth a rheolaeth?

Mae GLLM@YGRh yn cynnig Rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Rheolwyr Rheng Flaen a Rheolwyr y Dyfodol, Rheolwyr Canol, Uwch Reolwyr ac Uwch Weithredwyr.

## Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Gwobr ILM, Tystysgrif a Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Lefel 3) – Rheolwyr Rheng Flaen a'r Dyfodol
- Gwobr ILM, Tystysgrif a Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Lefel 5) – Rheolwyr Canol
- Gwobr ILM, Tystysgrif a Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Lefel 7) – Uwch Reolwyr ac Uwch Weithredwyr

## CMI

- Gwobr CMI, Tystysgrif a Diploma mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (Lefel 5) – Rheolwyr Canol
- Gwobr CMI - Tystysgrif a Diploma mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Strategaethol (Lefel 7)

Darperir y cyrsiau hyn mewn lleoliadau amrywiol ac, mewn sefyllfa gorfforaethol, yng ngweithle'r cleient. Mae pecynnau wedi'u teilwra hefyd ar gael er mwyn i gyflogwyr greu eu rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth trefniadaethol a phenodol eu hunain, gan fod y modiwlau, yn eu hunain, yn brofiadau hunan-gynwysiedig.

## Manteision i'r Mudiad

Datblygiad gyrfa parhaol yw'r allwedd i dwf a chynladwyedd yr unigolyn a'r mudiad ynghyd. Â dweud y gwir, mae mudiadau angen arweinyddiaeth effeithiol er mwyn goroesi. Bydd y mudiad yn adeiladu ei gynladwyedd a phroffidioldeb trwy dderbyn gwell canlyniadau gan eu pobl mewn modd sy'n tyfu a datblygu dawn o fewn y busnes yn yr hir-dymor, a hynny gan gyflwyno'r gweithredoedd gorau, a gydnabyddir ar lefel annibynnol a rhyngwladol, i'r tîm.

## Manteision i'r Unigolyn


Bydd myfyrwyr yn ennill cymhwyster arweinyddiaeth a rheolaeth o safon uchel a gydnabyddir yn genedlaethol ac adeiladu ar sgiliau a fydd yn optimeiddio perfformiad.

Bydd gallu'r myfyrwyr i ddarparu canlyniadau allweddol yn cael ei wella ac, i lawer, bydd yn rhoi rwy o foddhad iddynt yn eu swydd yn ogystal â gwir wobrwon. Gall y cymwysterau hefyd arwain at Rheolwr Siartredig (CMgr).



Rheolwr Gwasanaeth, Cyngor Sir Wrecsam  
Mike Bell

“Roedd cofrestru ar y cwrs yma'n werth chweil gan ei fod yn gallu cefnogi Rheolwyr a'u cynorthwyo i weithredu dysg er mwyn gwella perfformiad tîm”



# Cymhwyster Proffesiynol Sefydliad Siartredig Caffaeliad a Chyflenwad (CIPS)

## Ar gyfer pwy mae ef?

Gall myfyrwyr adeiladu'n gyflym ar brofiad presennol a chymwysterau er mwyn derbyn cymhwyster CIPS. Hyrwyddir y lefel radd anrhydeddus, broffesiynol hon fwyfwy o fewn y sector gyhoeddus a phreifat ac mae cyflogwyr yn ei nodi o fewn meini prawf dymunol ar swydd-ddisgrifiadau. Mae pobl broffesiynol yn y maes caffaeliad a chyflenwad, yn enwedig y rheini gyda chymwysterau uchel ac wedi'u hyfforddi'n dda, yn cael eu gweld fel asedau gwerthfawr mewn unrhyw fudiad.

## Manteision i'r Mudiad

Mae rheolaeth caffaeliad a chyflenwad ymhob sector. I nifer o fudiadau, y gost fwyaf i gwmnïau yw'r cynnyrch a gwasanaethau y maent yn eu prynu, yn aml iawn 80% o gyfanswm costau mudiad. Edrychir ar gaffaeliad fel y maes unigol, pwysicaf o wariant sy'n gallu dylanwadu ar gynladwyedd costau. Gall caffaeliad proffesiynol gynnig sylfaen-gost well a gwelliant mewn elw mudiadau.

## Manteision i'r Unigolyn

Mae'r **Dystysgrif Gyflwynedig Lefel 2** hon yn darparu sylfeini gwybodaeth da i'r rheini nad ydynt yn gweithio mewn pryniant, ond gyda chyfrifoldebau yn y maes hwn. Mae'r **Dystysgrif Uwch Lefel 3** yn bwynt mynediad delfrydol i'r rhai sy'n newydd i'r maes gan nad oes angen cymhwyster na phrofiad blaenorol o fewn amgylchedd caffaeliad. Mae mynediad i'r lefelau uwch megis Diploma – **Lefel 4, Diploma Pellach – Lefel 5 a Diploma Proffesiynol – Lefel 6**, yn ddibynnol ar gymwysterau a phrofiad blaenorol. Gall gwblhau'r Diploma Broffesiynol – Lefel 6 yn llwyddiannus olygu mynediad i raglen gradd meistr mewn Cyfraith/Caffaeliad (LLM) a ddarperir gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor yn ogystal â bod yn gymwys, gyda'r profiad priodol, ar gyfer statws aelodaeth llawn CIPS (MCIPS). Mae pobl broffesiynol yn y maes caffaeliad a chyflenwad yn asedau angenrheidiol a gwerthfawr i unrhyw fudiad, yn enwedig unigolion wedi'u cymhwyso a'u hyfforddi'n dda.



# Cymwysterau Hyfforddi a Mentora (ILM)

**Datblygwch ddiwylliant o hyfforddi a mentora, drwy sicrhau bod hyfforddwyr a mentorau wedi'u harfogi gyda'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth moesegol er mwyn gallu darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer datblygiad eraill a gwella perfformiad o fewn eich mudiad.**

Mae'r Rhaglenni Hyfforddi a Mentora a gynigir gan GLLM@YGRh wedi'u hachredu gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM).

## Ar gyfer pwy mae Hyfforddi a Mentora?

Mae GLLC@YGRh yn cynnig Rhaglenni Hyfforddi a Mentora ar gyfer Rheolwyr Rheng Flaen a'r Dyfodol, Rheolwyr Canolradd, Uwch Reolwyr ac Uwch Weithredwyr.

- **Gwobr a Thystysgrif mewn Hyfforddi (Lefel 3)** – Rheolwyr Rheng Flaen a'r Dyfodol
- **Gwobr a Thystysgrif mewn Hyfforddi a Mentora (Lefel 5)** – Rheolwyr Canol
- **Gwobr a Thystysgrif mewn Hyfforddi a Mentora Gweithredol (Lefel 7)** – Uwch Reolwyr ac Uwch Weithredwyr

Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu darparu mewn lleoliadau amrywiol neu, mewn sefyllfa gorfforaethol, yng ngweithle'r cleient.

## Manteision i'r Mudiad:

Bydd myfyrwyr yn adeiladu ar gynladwyedd a phroffidioldeb y mudiad trwy gael canlyniadau gwell o bobl y mudiad, mewn ffordd sy'n cynyddu dawn o fewn y busnes yn yr hir-dymor.

## Manteision i'r Unigolyn:

Bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau a fydd yn helpu i wella perfformiad eu hunain ac eraill, ac yn sgil hynny'n cael effaith sylweddol ar feysydd canlyniadau allweddol. Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig, mae fel arfer yn arwain at ddiogelwch swydd, posibiliadau ac yn agor drysau i ddyrchafiad oherwydd natur yr effaith a gaent. Bydd ymarferwyr hunan-gyflogedig yn creu canlyniadau a ellir eu mesur a'u bilio. Mae hefyd yn gwella hunan-ymwybyddiaeth a hunan-ffydd.

**CIPS Level 5, Airbus  
Elfyn Davies**

“ Mae damcaniaeth CIPS wedi bod o fantais enfawr i'm gyrfa mewn Caffaeliad. ”

**Dyma beth ddywedodd un o'n cwsmeriaid...**

“ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gweithio ers sawl blwyddyn mewn partneriaeth a'r coleg i ddarparu cymwysterau ILM. Mae adborth ein staff wastad wedi bod yn gadarnhaol ac wedi creu hwb i hyder, datblygu sgiliau arweiniol, magu sgiliau datrys problemau, sgiliau hyfforddi a mwy. ”



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

# Cymwysterau Sefydliad Siartredig Datblygiad Personel (CIPD)

**Datblygwch a gwellwch eich gwybodaeth ynglŷn â rheoli pobl ac adnoddau dynol a rhowch sgiliau angenrheidiol i'ch staff er mwyn iddynt ddatblygu eu hunain a'r bobl maent yn eu harwain.**

Mae'r cyrsiau Adnoddau Dynol a gynigir gan GLLM@YGRh wedi'u hachredu gan Sefydliad Siartredig Datblygiad Personel (CIPD).

## Ar gyfer pwy mae'r cyrsiau CIPD?

Mae GLLM@YGRh yn cynnig rhaglenni CIPD ar gyfer Pobl Broffesiynol o fewn Adnoddau Dynol, Rheolwyr Llinell a Rheolwyr AD y Dyfodol yn ogystal ag Uwch Reolwyr ac Uwch Weithredwyr. Bydd cyrsiau gan y CIPD yn caniatáu i reolwyr ddatblygu ac ehangu ar brosesau ac ymarferion rheolaeth adnoddau dynol o fewn eu mudiadau eu hunain.

## Y cyrsiau CIPD a gynigir

- **Y Dystysgrif mewn Gweithredu Adnodd Dynol**
- **Y Diploma mewn Rheolaeth Adnodd Dynol (Lefel 5)** – Lefel Canolradd
- **Y Diploma Pellach mewn Rheolaeth Adnodd Dynol (Lefel 7)** – Lefel Pellach

## Y sgiliau a ddysgir ac a ddatblygir

Mae cymwysterau Sylfaenol y CIPD yn darparu sylfeini gwybodaeth i'r rheini nad ydynt yn gweithio mewn Adnoddau Dynol ond gyda chyfrifoldeb yn y maes, **Lefel 3** yw'r pwynt mynediad delfrydol ar gyfer rhai newydd i'r maes neu'r rheini gyda diddordeb mewn datblygu eu sgiliau rheoli pobl. Edrychir ar feysydd Adnoddau Dynol allweddol trwy gydol y cwrs gan gynnwys:

- Sut i reoli gweithdrefn recriwtio a detholiad
- Meysydd allweddol cyfraith cyflogaeth
- Hyfforddi ymarferol a sgiliau mentora
- Trosolwg o sut mae adran Adnoddau Dynol fodern yn gweithredu

Mae mynediad i'r lefelau canolradd a phellach yn ddibynnol ar gymwysterau neu brofiad AD blaenorol. Ar y lefel Canolradd a Phellach mae pwyslais ar sut mae AD yn dod yn bartner busnes strategaethol o fewn mudiadau.

## Mae meysydd astudio allweddol yn cynnwys:

- Yr amgylchedd allanol a sut mae'n effeithio ar fudiad
- Ymagwedd strategaethol tuag at wobrwyr trefniadaethol
- Sut i ddenu, rheoli a chadw dawn o fewn y mudiad
- Cyfraith cyflogaeth pellach
- Modelau cyfoes o ddarparu AD gan gynnwys all-ffynhonellu a rhannu gwasanaethau

## Hyd y cwrs

Mae'r cyrsiau Sylfaenol a Chanolradd CIPD yn un flwyddyn academaidd o hyd. Mae'r cwrs lefel Pellach y CIPD yn ddwy flynedd academaidd o hyd.

## Manteision i'r Mudiad

Mae AD yn ffynhonell hollbwysig ar draws pob sector ddiwydiannol ac yn hanfodol ar gyfer rhedeg pob adran yn ddi-drafferth o fewn mudiad. Gall AD weithredu fel partner busnes i reolwyr llinell a fydd yn arwain at ysgogiad gwell, gweithlu sylwgar a pherfformiad gwell i'r mudiad cyfan.

## Manteision i'r Unigolyn

Bydd unigolion yn datblygu sgiliau a gwybodaeth er mwyn cynllunio a gweithredu gweithrediad AD llwyddiannus o fewn eu mudiad, trwy brofiad busnes ymarferol.



**Swyddog Personel, Cartrefi Gogledd Cymru**  
Michelle Hughes

“Cwblheais y Dystysgrif Lefel 3 mewn AD ac wedyn ei defnyddio fel platfform i gwblhau Diploma Lefel 5 mewn rheolaeth AD. Helpodd y sgiliau a ddysgais, yn ogystal â safon y dysgu yn ystod y Lefel 3, fy natblygiad ac hefyd fy hyder i fynd ati i wneud Lefel 5. Talais am y cyrsiau hyn fy hun ac yn ystod y cymhwyster, dychwelais yn ôl i waith llawn amser (ar ôl cyfnod mamolaeth) fel Gweinyddes Adnoddau Dynol a Hyfforddiant ac yna yn fuan wedyn, datblygu i ddod yn Swyddog mewn mudiad gwahanol. Roedd y ddau gymhwyster CIPD yn hanfodol er mwyn i mi gyrraedd fy nod o fewn datblygiad proffesiynol.”

# Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM)

**Datblygwch ac ehangwch ar eich gwybodaeth o farchnata proffesiynol, gall hyn eich galluogi i gael canlyniadau rhagorol ar gyfer eich mudiad.**

Mae'r cyrsiau Sefydliad Siartredig Marchnata wedi'u hachredu gan GLLM@TMC gan y Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM)

## Ar gyfer pwy mae'r cyrsiau CIM?

Mae GLLM@YGRh yn cynnig rhaglenni CIM ar gyfer marchnadwyr proffesiynol gyda gweledigaeth, rheolwyr adran, rheolwyr cynnyrch/brand, rheolwyr cyfrifon, gweithredwyr marchnata, rheolwyr datblygiad busnes yn ogystal ag Uwch Reolwyr a Gweithredwyr. Bydd cyrsiau gan y CIM yn caniatáu i reolwyr allu datblygu a gwella prosesau ac ymarferion rheolaeth marchnata o fewn eu mudiadau eu hunain.

## Cyrsiau CIM a gynigir

- Tystysgrif mewn Marchnata CIM Lefel 3 Sylfaen
- Tystysgrif mewn Marchnata Proffesiynol CIM Lefel 4
- Diploma mewn Marchnata Proffesiynol CIM Lefel 6

## Sgiliau a ddysgir ac a ddatblygir

Mae cymwysterau Sylfaen CIM yn darparu sylfeini delfrydol i'r rheini nad ydynt yn gweithio o fewn marchnata ond gyda chyfrifoldeb yn y maes ac yn dymuno datblygu gyrfa mewn marchnata. Lefel 3 yw'r pwynt mynediad delfrydol i'r rheini sy'n newydd i'r maes neu gyda diddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth am farchnata. Edrychir ar feysydd marchnata allweddol trwy gydol y cwrs gan gynnwys:

- Swyddogaeth marchnata o fewn mudiad
- Ffactorau sy'n dylanwadu ymddygiad y treuliwr
- Cyfansoddiadau allweddol mewn awyrgylch farchnata
- Sut i gasglu gwybodaeth berthnasol o'r awyrgylch farchnata
- Syniadau ac elfennau o'r gymysgedd farchnata
- Sut i weithredu'r gymysgedd farchnata mewn sefyllfaoedd gwahanol



Mae mynediad i'r lefelau proffesiynol yn ddibynnol ar gymwysterau a phrofiad marchnata blaenorol. Ar lefel broffesiynol, mae'r pwyslais ar sut mae marchnata yn hysbysu penderfyniadau strategaethol busnes.

Mae meysydd allweddol yn cynnwys:

- Marchnata
- Cyfathrebu Cyfannedig
- Profiad y Cwsmer
- Marchnata Digidol
- Metrics Marchnata

## Hyd y cwrs

Mae'r cwrs CIM Sylfaen a Lefel 4 yn un flwyddyn academaidd o hyd. Mae'r cwrs CIM Lefel 6 yn ddwy flynedd o hyd.

# Prentisiaethau Uwch

**Golygir y twf a welir yn y DU yn y dyfodol fod angen ail-wampio'r economi o amgylch gweithgareddau gwerthfawr a sgiliau o safon uchel o fewn marchnad ryngwladol gystadleuol ddwys. Golygir hyn fod cyflogaeth yn awr, ac yn y dyfodol, angen mwy o bobl gyda sgiliau o safon uchel. Mae prentisiaethau uwch yn cynnig cyfuniad o hyfforddiant yn y swydd, gyda staff yn astudio am lefelau cymhwyster uwch i sicrhau gweithlu gwybodus ac hanfodol i'r mudiad.**

Mae'r Brentisiaeth Uwch yn rhaglen wedi ei seilio ar waith ac fe'i chydabyddir yn genedlaethol, mae wedi ei dylunio er mwyn ateb gofynion y cyflogwr o fewn lefelau sgiliau uchel ac yn cynnwys cymwysterau ar lefel tebyg i addysg uwch. Maent yn cynnwys tair prif gangen:

- Elfennau wedi'i seilio ar gymhwysedd
- Elfen dechnolegol
- Elfen sgiliau

Weithiau cydosodir y dair cangen gyda chymwysterau ychwanegol er mwyn rhoi'r sgiliau a gwybodaeth mwyaf perthnasol sydd eu hangen ar gyfer y swydd.

## **Pa fudd yw hyn i'r mudiad?**

Datrysych anghenion unigryw eich busnes – Mae prentisiaethau uwch yn gallu datblygu gwybodaeth a chymwysedd swyddogaethol gofynnol mewn swyddi penodol, a chyrraedd anghenion unigryw y busnes hefyd.

Recriwtiwrch o ystod ehangach o ddawn – Mae prentisiaethau yn galluogi busnesau i ddenu a chadw staff gyda photensial, ehangu amrywiaeth yn y gweithle ac yn elwa'r gymuned leol a'r economi ehangach.

Cynyddwch gynhyrchiant – Mae prentisiaethau uwch yn galluogi i fusnes gael y wybodaeth ddiweddaraf o ran technegau, technoleg, hyn yn cynyddu cynhyrchiant yn y dyfodol.

Llenwch fylchau sgiliau lefel uwch – mae sgiliau lefel uwch yn hanfodol i berfformiad busnes a thwf economi

Denwch staff o safon uwch – gall brentisiaethau uwch ddenu staff o safon uwch ac helpu i ddatblygu gweithlu ysgogedig a ffyddlon.



**Rheolwr Gyfarwyddwr AIRP, CIPD,  
Letterbox Recruiting  
Natalie Wood LLB (Hons)**

“Roedd mynd am y cymhwyster CIPD yn gam gwyd i mi'n bersonol ond hefyd i'r cwmni. Nid yn unig, y dysgodd i mi'r ddamcaniaeth tu ôl i rai egwyddorion o fewn rheolaeth adnoddau dynol ond hefyd galluogodd i mi rwydweithio gyda phobl broffesiynol eraill o gwmnïau lleol a rhannu'r ymarferiadau gorau. Roedd y tiwtoriaid yn wych, ac wrth law trwy'r amser, a gweithredodd y cydlynnydd cwrs Will Boulton y rhaglen heb drafferth.”

# Y Diploma Cymhwysol CIPD mewn Adnoddau Dynol (QCF)

## **Prentisiaethau Uwch**

Datblygwch a gwellwch eich gwybodaeth o reoli pobl a rhowch y sgiliau angenrheidiol i'ch staff er mwyn iddynt ddatblygu eu hunain a'r bobl maent yn eu harwain.

Mae'r cwrs Diploma Cymhwysol CIPD mewn Adnoddau Dynol (QCF) a gynigir gan Grŵp Llandrillo Menai yn y Ganolfan Rheolaeth yn gymhwyster Prentisiaeth Uwch wedi'i achredu gan y Sefydliad Siartredig Datblygiad Personel (CIPD).

## **Ar gyfer pwy mae'r Diploma Cymhwysol CIPD mewn Adnoddau Dynol?**

Mae'r cwrs CIPD hwn ar gyfer rheolwyr presennol a'r dyfodol sydd eisoes yn gweithio yn y maes AD o fewn eu mudiad. Bydd y cwrs yn eu harfogi gyda'r celfi angenrheidiol i fod yn bobl broffesiynol effeithiol o fewn adnoddau dynol yn eu mudiadau eu hunain.

## **Y sgiliau a ddysgir ac a ddatblygir**

Mae'r Diploma Cymhwysol CIPD mewn Adnoddau Dynol yn darparu mewnolwg werthfawr i ymarferiadau AD cyfoes. Edrychir ar feysydd allweddol AD trwy gydol y cwrs gan gynnwys:

- Sut i reoli proses recriwtio a detholiad
- Meysydd cyfoes cyfraith cyflogaeth
- Sgiliau hyfforddi a mentora ymarferol
- Trosolwg o sut mae adran AD fodern yn gweithredu

Yn ychwanegol mae pwyslais mawr ar sut gall AD weithredu fel partner busnes strategaethol o fewn mudiadau.

## **Mae meysydd astudio allweddol yn cynnwys:**

- Yr amgylchedd allanol a sut mae'n effeithio ar fudiad
- Ymagwedd strategaethol i wobrwyo trefniadaethol
- Sut i ddenu, rheoli a chadw dawn o fewn y mudiad
- Cyfraith cyflogaeth pellach
- Modelau cyfoes o ddarparu AD gan gynnwys all-ffynhonellu a rhannu gwasanaethau

## **Dulliau darparu**

Bydd astudio ar gyfer y cymhwyster hwn yn plethu dull dysgu cymysg. Yn ogystal ag amser cyswllt yn y dosbarth, bydd darpariaeth hefyd drwy ddefnyddio seminarau dros y we, llyfrau gwaith a phodlediad.

## **Manteision i'r Mudiad:**

Mae AD yn ffynhonell hollbwysig ar draws pob sector ddiwydiannol ac yn hanfodol ar gyfer rhedeg pob adran yn ddi-drafferth o fewn mudiad. Gall AD fod yn bartner busnes i reolwyr llinell a fydd yn arwain at ysgogiad gwell, gweithlu sylwgar a pherfformiad gwell i'r mudiad cyfan.

## **Manteision i'r Unigolyn:**

Bydd unigolion yn datblygu sgiliau a gwybodaeth er mwyn cynllunio a gweithredu gweithrediad AD llwyddiannus o fewn eu mudiad, trwy brofiad busnes ymarferol.





# Y Fframwaith Rheolaeth Lefel 4 (Prentisiaethau Uwch)

**Manteisiwch ar gael tîm wedi'i ysgogi'n fawr a gydag egni newydd sy'n barod i roi eu gwybodaeth a'r sgiliau maent wedi'u dysgu ar waith er budd y mudiad.**

Datblygwch wybodaeth rheolaeth ac arweinyddiaeth i gydfynd â'r sgiliau a chymyseddau swyddogaethol sy'n ofynnol i reolwyr canol.

## Ar gyfer pwy mae'r cwrs hwn?

Mae'r **Diploma Lefel 4 ILM mewn Egwyddorion Arweinyddiaeth a Rheolaeth** wedi'i ddylunio i ddarparu Rheolwyr Canol sydd eisoes gyda chymysgedd o gyfrifoldebau lefel uwch a gweithredol, gydag egwyddorion allweddol arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Cafodd y Diploma ILM Lefel NVQ** mewn Rheolaeth ei ddatblygu i helpu'r rheolwyr a darpar-reolwyr hynny i symud i fyny o reolaeth reng flaen i reolaeth ganol. Mae'r cymhwyster yn ddelfrydol ar gyfer y rheini gyda chyfrifoldeb mewn prosesau gweithredol ond sydd y tu allan i gyfrifoldebau rheolwr llinell o ddydd i ddydd.

## Sgiliau a ddysgir ac a ddatblygir

### Diploma Lefel 4 ILM mewn Egwyddorion

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - caiff y brentisiaeth ei darparu yn ystod 19 sesiwn dros gyfnod o 9 mis, gan ddefnyddio cymysgfa o'r canlynol: Darlithiau, gwaith grŵp, cyflwyniadau ac aseiniadau.

**Diploma ILM Lefel NVQ mewn Rheolaeth** - Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei asesu yn y gweithle.

## Hyd y cwrs

Bydd y cwrs yn rhedeg am gyfnod o 18 mis.

## Manteision i'r Mudiad:

Nod y cymwysterau yw darparu cyflogwyr gyda rheolwyr canol gwybodus a galluog sy'n gallu defnyddio sgiliau a galluoedd eu staff er mwyn sicrhau y gweithredir cynlluniau strategaethol er mwyn cyrraedd amcanion trefniadaethol yn effeithiol.

## Manteision i'r Unigolyn:

Mae'r cymwysterau yn helpu i ddatblygu y wybodaeth ategol angenrheidiol i berfformio'n effeithiol fel rheolwr canol. Mae myfyrwyr hefyd yn ennill cymhwyster mewn arweinyddiaeth a rheolaeth a gydnabyddir yn genedlaethol.



# Arloesedd Busnes a Thwff

## Diploma BTEC Lefel 5 mewn Arloesiad a Thwff (mewn cydweithrediad â Peter Jones Enterprise Academy) Prentisiaeth Uwch

Mae'r Diploma Lefel 5 newydd, unigryw a chyffrous yn anelu at ddatblygu sgiliau dawn trefniadaethol hyd at ddod yn arloeswyr y dyfodol. Mae arloesi'n chwarae rhan bwysig o fewn gallu mudiadau i fod yn gynladwy ac ennill neu chynnal mantais gystadleuol.

Mae arloesi yn fwy na chreu cynnyrch a gwasanaethau newydd sbon, mae am wella beth sy'n bodoli'n barod, datblygu meddylfryd newydd i wneud busnes a darparu sylfeini ar gyfer busnesau sy'n tyfu.

## Ar gyfer pwy mae'r cwrs hwn?

Mae'r Diploma yn addas ar gyfer Rheolwyr Canol ac Uwch Reolwyr.

Mae GLLM@YGRh yn cynnig rhaglen Busnes ac Arloesi i ddatblygu meddylwyr arloesol a chreadigol, sy'n gallu aml-orchwyllo, cyfathrebu a datblygu eu mudiadau. Bydd y meddylfryd arloesol yn helpu i ddad-orchuddio cyfleon ar gyfer mudiad o fewn y heriau o weithredu mewn byd sy'n newid. Mae'r cwrs wedi ei ddylunio er mwyn helpu i dyfu cenedlaeth newydd o reolwyr arloesol.



## Sgiliau a ddysgir a datblygir

Mae ffocws cryf ar ddatblygu sgiliau sydd eu hangen gan fusnesau i gynyddu nawws gystadleuol mewn marchnad ryngwladol, gan gynnwys:

- Datrys problemau yn greadigol
- Meddwl yn greadigol ac adnabod cyfleon
- Meddwl dan bwysau ar lefel uchel
- Defnyddio blaengaredd ac awgrymu datrysiadau
- Gwaith tîm ac arweinyddiaeth
- Rhwydweithio a negodi
- Ymwybyddiaeth masnachol
- Rheolaeth amser

## Dull astudio

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddarparu trwy gymysgedd o sesiynau yn y dosbarth, gweithdai, dysgu ar-lein ac astudio'n annibynnol

## Manteision i'r Mudiad:

Nod y Diploma cyffrous hwn yw i ddarparu cyflogwyr gyda'r talent sydd ei angen ar gyfer cystadlu, tyfu a llwyddo mewn marchnad ryngwladol gystadleuol.

## Manteision i'r Unigolyn:

Bydd unigolion yn datblygu sgiliau i allu gweithredu syniadau newydd a magu ffyrdd newydd o feddwl drwy brofiad busnes a sgiliau ymarferol.

# Rhaglenni Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Rhyngwladol

**Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn gyfleuster hyfforddi rhagorol. Gyda chyfleusterau preswyl, hyfforddi a chynhadledd pedair seren, mae'n darparu lleoliad anhygoel i Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor allu cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra blaengar proffesiynol ar gyfer y farchnad busnes ryngwladol ymhob sector a lefelau trefniadaethol.**

Mae'r holl raglenni yn cael eu darparu gan hwyluswyr rhyngwladol profiadol gydag ystod eang o brofiad o fewn diwylliant, gwaith academaidd ac o fewn ymarferiadau diwydiannol.

Rydym yn falch o gynnig pecynnau datblygiad ac hyfforddiant i gleientiaid sydd wedi'u teilwra ar eich cyfer chi a gall bob un o raglenni GLLM gael eu hachredu.

## Rhaglenni ar gael

- Caffaeliad
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth (gan gynnwys statws Rheolaeth Siartredig)
- Cyfrifeg a Chyllid
- Hyfforddi a Mentora
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Dealltwriaeth Emosiynol
- Arloesi Busnes a Thwf

## Ymgynghoriaeth a Dehongliad Anghenion Hyfforddiant

Gallwn ddarparu dehongliad anghenion hyfforddiant ar gyfer eich mudiad er mwyn penderfynu ar raglen wedi'i theilwra o gyrsiau o fewn yr opsiynau uchod.



# Busnes i Fusnes (B2B)

**Mae Grŵp Llandrillo Menai gan weithio mewn Partneriaeth â Phrifysgol Bangor yn darparu rhaglenni wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer anghenion trefniadaethol penodol. Bydd datblygu sgiliau staff newydd a chyfredol a gallu trefniadaethol yn chwarae rhan bwysig mewn pennu proffildioldeb, cynhyrchiant a llwyddiant posib busnesau. Mae llwyddiant o fewn y farchnad yn gynyddol ddibynnol ar sgiliau cystadleuol, ac mae hyn yn gwneud datblygu sgiliau yn ffactor allweddol, hir-dymor. Wrth weithio gyda ni, gallwch ddatblygu strategaethau newydd a modelau busnes i gystadlu ym marchnadoedd y dyfodol.**

Gellir teilwra rhaglenni/modiwlau i gydfynd ag anghenion ac amcanion eich mudiad. Y brif ffocws fydd i sicrhau bod bob un o'n rhaglenni wedi'u dylunio a darparu i sicrhau proses rhyngweithiol a gwerthfawr sydd wedi'i anelu at gefnogi cynladwyedd eich mudiad.

Mae ein ymgynghorwyr yn gallu dylunio rhaglenni penodol ar gyfer eich mudiad yn y meysydd:

- Caffaeliad
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (gan gynnwys Rheolaeth Siartredig)
- Cyfrifeg a Chyllid
- Hyfforddi a Mentora
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Dealltwriaeth Emosiynol
- Arloesi Busnes a Thwf

Gall pob un o'r rhaglenni gael eu darparu yn y Ganolfan Rheolaeth, traws DU, neu'n rhyngwladol gan ein tiwtoriaid hynod o brofiadol ac ymarferol.

**Os gwelwch yn dda, cysylltwch â ni i drafod rhaglen ar gyfer anghenion eich busnes.**

# Peidiwch â chymryd ein gair ni'n unig...

---

## Rheolwr Datblygiad Corfforaethol, Cyngor Sir Conwy

**Carole Gooderham**

“ Rydym wedi gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r Ganolfaeth Rheolaeth am sawl blwyddyn bellach i ddarparu cymwysterau wedi'u teilwra ILM Lefel 3 a 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Rydym wastad wedi bod o'r farn bod ein perthynas gyda'r mudiad wedi bod yn gadarnhaol yn ogystal â phroffesiynol. ”



## Grŵp Tai Pennaf

**Lisa Ramage - Ymgynghorydd Dysgu a Datblygiad**

“ Rydym wedi partneru gyda Grŵp Llandrillo Menai am sawl blwyddyn i ddarparu ein rhaglenni Datblygiad Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Rhoddir cefnogaeth ac arweiniad i'n rheolwyr trwy gydol eu hastudiaethau ac mae ein cyfradd llwyddiant yn dystiolaeth o ymroddiad ac arbenigedd y coleg o fewn datblygiad rheolaeth. ”

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Janina Smith - Rheolwr Datblygiad Pobl, Y Ganolfan Hyfforddi, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

“ Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi bod yn darparu hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheolaeth (cwrs ILM) ar gyfer gweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ers dros ddeng mlynedd bellach. Does dim yn ormod o drafferth, o gynnal sesiynau gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr hyd at gefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr unai wyneb yn wyneb, yn electroneg neu dros y ffôn. ”

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Andy Ballard, Gorsaf Dân Corwen**

“ Mynychais y cwrs gan fy mod yn meddwl y byddai o fudd i'm swydd gymharol newydd fel Rheolwr Tîm. Mwynheais y cwrs yn arw a'm cyngor mwyaf yw i wneud eich gwaith i gyd yn syth, tra'i fod yn ffres yn eich meddwl. ”

## Diploma Lefel 5 mewn Rheolaeth Adnoddau Dynol Cymwysedig.

**Ann Owen – Dirprwy Reolwr Gwesty'r Fictoria, Eryri**

“ Mae'r amser darlithio yn galluogi i mi fyfyrio dros a gwella fy swyddogaethau AD rwyf yn eu gwneud ar hyn o bryd. Mae hefyd yn braf derbyn cadarnhad fy mod yn gweithredu'r ymarferiadau gorau yn barod mewn rhai sefyllfaoedd ac yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf o fewn Rheolaeth AD. ”

